

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y CABINET DROS DIOGELU'R CYHOEDD

2 MEDI 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: P.M. Hughes (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod: 10:15yb - 10:30yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 28 IONAWR 2021

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.

3. GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS - YMGYSYLLTU CYCHWYNNOL Â RHANDEILIAID

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus.

Mae'r Llywodraeth wedi gwneud darpariaethau i gyflwyno Gorchymynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ac ym mis Gorffennaf 2019 pan fabwysiadodd yr awdurdod 3 amod yn ymwneud â gorchymynion cŵn:

1. Gadael i gi faeddu heb ei godi yn unman yn Sir Gaerfyrddin lle mae gan y cyhoedd fynediad ar daliad neu fel arall yn cael ei ystyried yn drosedd
2. Rhaid i gŵn gael eu rhoi ar dennyn yn dilyn cyfarwyddyd gan swyddog awdurdodedig.
3. Ni chaniateir cŵn mewn manau chwarae caeedig i blant.

Dywedwyd bod y Gorchymyn yn cael ei adolygu bob 3 blynedd ac fel rhan o'r broses ymarfer ymgysylltu, mae'n ofynnol casglu unrhyw amodau ychwanegol i'r amodau presennol a nodir ym mhwyntiau 1-3 uchod gan randdeiliaid perthnasol.

Roedd yr adroddiad yn cynnig cynnal cyfnod ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol a fyddai'n cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned drwy arolwg. Byddai ymgysylltu'n gynnar yn rhoi cyfle i gynnwys unrhyw ddarpariaethau ychwanegol y gellid ystyried eu bod yn angenrheidiol i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â chŵn. Byddai'r wybodaeth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgysylltu hwn yn cael ei hystyried cyn ymgynghori ffurfiol fel rhan o'r broses o adnewyddu'r Gorchymyn presennol neu wneud Gorchymyn newydd.

Nododd yr Aelod Cabinet, yn dilyn y cyfnod ymgysylltu cychwynnol o 8 wythnos ac ystyried yr adborth, y byddai'r broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau ar ôl datblygu'r Gorchymyn/Gorchmynion drafft.

PENDERFYNWYD:

- 3.1 Cymeradwyo arolwg gyda rhanddeiliaid perthnasol i gasglu gwybodaeth i baratoi ar gyfer adnewyddu ein Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus.**
- 3.2 Cymeradwyo arolwg i randdeiliaid perthnasol sef Cyngorau Tref a Chymuned a Chymdeithasau Chwaraeon i ganfod pa amodau ychwanegol yr hoffent eu hychwanegu at y ddarpariaeth bresennol (Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus sy'n cwmpasu'r 3 amod sy'n ymwneud â rheolaethau cŵn ar hyn o bryd), neu o bosibl drwy orchmynion ychwanegol ar wahân.**

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD